# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Asesiad Effaith Integredig

Bwriedir i'r asesiad effaith integredig hwn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghori Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

**NODER:** Dim ond os bydd cynigion yn rhai strategol eu natur neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen llenwi Adran 3 *Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol*. Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

**NODER: Disodlwch unrhyw destun llwyd, mae yno i'ch arwain. Sicrhewch fod lliw'r ffont yn cael ei drosi i ddu am resymau hygyrchedd.**

## 1. Manylion y Cynnig

| Swyddog Arweiniol | Pennaeth Gwasanaeth | Maes Gwasanaeth ac Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Anwen Cullinane / Kath Peters | Sue Richards | Polisi a Gwella Busnes – Cydraddoldeb a'r Gymraeg | 10/01/2024 |

**Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?** *Rhowch fanylion cryno am y cynnig a dolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol.*

Gostyngiad o 20% i Gyllideb Hyfforddiant Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae hyn yn cyfateb i £3647 yn llai i'w wario ar gyrsiau hyfforddi staff.

Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb a'r Gymraeg i staff yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

---

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

- Hyfforddiant Staff – hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r dyletswyddau penodol yng Nghymru. Defnyddio gweithdrefnau asesu perfformiad i nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi staff

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

- **Safon y Gymraeg 128 -**

Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os byddwch yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg –
(a) recriwtio a chyfweld;
(b) rheoli perfformiad;
(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
(ch) sefydlu;
(d) delio â'r cyhoedd; a
(dd) iechyd a diogelwch.

- **Safon Iaith Gymraeg 129 –**

Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn –
(a) cyfarfodydd;
(b) cyfweliadau; a
(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

DRAFT

- **Safon Iaith Gymraeg 130 –**

Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith -

(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a
(b) i gyflogeion sy'n rheoli eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

- **Safon Iaith Gymraeg 131 –**

Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol i gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim, i ddatblygu eu sgiliau iaith.

- **Safon Iaith Gymraeg 132 –**

Rhaid i chi ddarparu cyrsiau hyfforddi fel y gall eich gweithwyr ddatblygu -

(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru);
(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu'n unol â safonau'r Gymraeg;
(c) dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

---

Mae'r gyllideb hyfforddi hon hefyd yn cael ei defnyddio i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'i deilwra sy'n ofynnol gan feysydd gwasanaeth yn dilyn cwyn neu i fynd i'r afael ag angen gwasanaeth.

Defnyddir y Gyllideb Hyfforddiant Cydraddoldeb a'r Gymraeg hefyd i ariannu Hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain i staff ddysgu sgiliau IAP i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gymuned Fyddar.

Y llynedd (2022-2023) talodd y gyllideb hon am gyrsiau Hygyrchedd a Hyfforddiant Hawdd ei Ddeall i staff yn dilyn sefydlu Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd').

Yn y 3 blynedd diwethaf nid ydym wedi gwario'r dyraniad llawn o'r gyllideb hyfforddi, er bod llai na £1000 ar ôl ar gyfer 2022-2023.

***2.*** **Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011** *(Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd gwarchodedig.*

| [Nodweddion Gwarchodedig]() | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?** | **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(pobl o bob oedran)* | **Negyddol** – bydd gostyngiad yn y gyllideb hyfforddi yn arwain at lai o arian i ddarparu hyfforddiant i uwchsgilio staff ar faterion cydraddoldeb.<br><br>Mae llai o sgiliau a gwybodaeth am ofynion cydraddoldeb yn gadael y Cyngor yn agored i heriau cyfreithiol ac ariannol | Bydd llai o hyfforddiant yn cael ei ddarparu gyda llai o arian hyfforddi ar gael. Bydd yn rhaid i ni flaenoriaethu'r hyfforddiant y mae'n rhaid i ni ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth a chanolbwyntio'r hyfforddiant hwnnw i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. | Defnydd blaenorol o'r gyllideb. |
| **Anabledd** *(pobl ag anableddau/ cyflyrau hirdymor)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Ailbennu Rhywedd** *(pobl y mae eu hunaniaeth neu eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** *(pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |

DRAFT

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(menywod sy'n feichiog a/neu sydd ar absenoldeb mamolaeth)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Hil** *(pobl o gymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac o wahanol gefndiroedd hiliol)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Crefydd neu Gred** *(pobl â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Rhyw** *(menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n pennu eu rhywedd eu hunain)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** *(lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |

DRAFT

### 3. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

*(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau yn wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn wirioneddol wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, os o gwbl, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)*

**Ystyriwch y grwpiau ychwanegol hyn sy'n agored i niwed a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnynt:**

- *Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed*
- *Pobl â lefel isel o lythrennedd/ rhifedd*
- *Pensiynwyr*
- *Plant sy'n derbyn gofal*
- *Pobl ddigartref*
- *Gofalwyr*
- *Cymuned y Lluoedd Arfog*
- *Myfyrwyr*
- *Aelwydydd ag un oedolyn*
- *Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau*
- *Pobl sydd â phrofiad o'r system loches*
- *Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal*
- *Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALlC)*
- *Pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol*

| Anfantais Economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Incwm Isel / Tlodi Incwm** *(methu fforddio gwneud taliadau rheolaidd megis biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati)* | Amherthnasol – er bod rhywfaint o'r hyfforddiant a ddarperir yn ymdrin â materion economaidd-gymdeithasol. | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Fawr ddim Cyfoeth a/neu Ddim Cyfoeth** *(digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a biliau ond nid oes gennych unrhyw gynilion i ddelio â gwariannau annisgwyl nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |

| Anfantais Economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd Materol** *(methu cael nwyddau na gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol megis yswiriant bywyd, atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri neu brynu rhai newydd, cartref cynnes, hobïau ac ati)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Amddifadedd Ardal** *(lle mae rhywun yn byw (ardaloedd gwledig), lle mae rhywun yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus). Effaith ar yr amgylchedd?* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Cefndir Economaidd-gymdeithasol** *(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| **Anfantais Economaidd-gymdeithasol** *(Pa effaith gronnol a gaiff y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd warchodedig/ nodweddion gwarchodedig neu'r ffaith eu bod yn agored i niwed neu am eu bod eisoes o dan anfantais)* | Gweler uchod. | Gweler uchod. | Gweler uchod. |

DRAFT

## 4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

*(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw rai/pob un o Amcanion Llesiant y Cyngor? Sydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A fydd yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral)? Os bydd yn cael effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi'u lliniaru?)* *Cynllun Corfforaethol*

| | |
|---|---|
| **Amcan 1 - Galluogi ein Plant i Lwyddo mewn Addysg** | Ddim yn berthnasol |
| **Amcan 2 - Galluogi ein Preswylwyr i Ffynnu** | Mae uwchsgilio staff am gydraddoldeb a materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau mewn ffordd gynhwysol a hygyrch. |
| **Amcan 3 - Galluogi ein Cymunedau i Ffynnu** | Ddim yn berthnasol |
| **Amcan 4 - Galluogi ein Heconomi i Dyfu** | Ddim yn berthnasol |
| **Amcan 5 - Galluogi ein Hamgylchedd i fod yn Wyrddach** | Ddim yn berthnasol |

| **4a. Cysylltiadau â Pholisïau perthnasol eraill y Cyngor**<br>*(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw bolisïau perthnasol eraill sydd gan y Cyngor?)* |
|---|
| Cynllun Corfforaethol 2023-2028<br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024<br>Workforce Development Strategy 2021-2024 (Saesneg yn unig. Dogfen mewnol)<br>Stategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 |

DRAFT

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio

*(Gelwir hefyd yn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)*

| Y Pum Ffordd o Weithio | Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig? |
|---|---|
| **Hirdymor**  | Bydd gostyngiad yn y gyllideb cydraddoldeb a hyfforddiant iaith Gymraeg yn arwain at lai o hyfforddiant i uwchsgilio staff am faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a’r Gymraeg. Yn y tymor hir, gallai hyn gael effaith andwyol ar sut mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch. Er mwyn rheoli’r gostyngiad yn y gyllideb, byddwn yn blaenoriaethu hyfforddiant i staff rheng flaen yn y lle cyntaf ac yn darparu cyrsiau hyfforddi ar yr hyn a ystyrir yn ofyniad sylfaenol, yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol a grybwyllir yn Adran 2 a’r polisïau a restrir yn Adran 4a. |
| **Atal**  | Byddwn yn edrych ar ffyrdd cost-effeithiol o ddarparu’r hyfforddiant gofynnol sy’n ofynnol yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, bydd hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. |
| **Integreiddio**  | Byddwn yn edrych ar ffyrdd cost-effeithiol o ddarparu’r hyfforddiant gofynnol sy’n ofynnol yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, bydd hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. |
| **Cydweithio**  | Byddwn yn edrych ar ffyrdd cost-effeithiol o ddarparu’r hyfforddiant gofynnol sy’n ofynnol yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, bydd hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. |
| **Cynnwys**  | Byddwn yn edrych ar ffyrdd cost-effeithiol o ddarparu’r hyfforddiant gofynnol sy’n ofynnol yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, bydd hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. |

DRAFT

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| Nodau Llesiant | A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut? |
| --- | --- |
| **Cymru lewyrchus**<br>*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas* | Lle bo modd, rydym yn defnyddio darparwyr hyfforddiant lleol i sicrhau bod yr arian y mae'r Cyngor yn ei wario ar hyfforddiant yn cael ei gadw yn yr economi leol cyn belled ag y bo modd. |
| **Cymru gydnerth**<br>*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (ar gyfer newid yn yr hinsawdd)* | Ddim yn berthnasol |
| **Cymru iachach**<br>*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol* | Ddim yn berthnasol |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)* | Mae'n anochel y bydd llai o hyfforddiant yn cael ei ddarparu gyda llai o arian hyfforddi ar gael. Byddai'n rhaid inni edrych a blaenoriaethu'r hyfforddiant y mae'n rhaid inni ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth a chanolbwyntio'r hyfforddiant hwnnw i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. |

DRAFT

| **Nodau Llesiant** | **A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut?** |
| --- | --- |
| **Cymru o gymunedau cydlynus**<br>*Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da* | Mae'n anochel y bydd llai o hyfforddiant yn cael ei ddarparu gyda llai o arian hyfforddi ar gael. Byddai'n rhaid inni edrych a blaenoriaethu'r hyfforddiant y mae'n rhaid inni ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth a chanolbwyntio'r hyfforddiant hwnnw i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden* | Mae'n anochel y bydd llai o hyfforddiant yn cael ei ddarparu gyda llai o arian hyfforddi ar gael. Byddai'n rhaid inni edrych a blaenoriaethu'r hyfforddiant y mae'n rhaid inni ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth a chanolbwyntio'r hyfforddiant hwnnw i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>*Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang* | Ddim yn berthnasol |

DRAFT

## 7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

*(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)* Safonau Llunio Polisi – Dogfen Gyngor Arferion Da

| **Gofyniad** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?** | **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?** *e.e y CSCA, TAN20, CDLl, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion* |
|---|---|---|---|
| **Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2022-2027** a **Phroffil iaith BSC** | **Negyddol** – bydd gostyngiad yn y gyllideb hyfforddi yn arwain at lai o arian i ddarparu hyfforddiant i uwchsgilio staff ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.<br><br>Mae llai o sgiliau a gwybodaeth am ofynion y Gymraeg yn gadael y Cyngor yn agored i heriau cyfreithiol ac ariannol. | Mae'n anochel y bydd llai o hyfforddiant yn cael ei ddarparu gyda llai o arian hyfforddi ar gael. Byddai'n rhaid inni edrych a blaenoriaethu'r hyfforddiant y mae'n rhaid inni ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth a chanolbwyntio'r hyfforddiant hwnnw i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. | Defnydd blaenorol o'r gyllideb. |
| **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.**<br>*Safonau 88–93 yn benodol* | Gweler Uchod | Gweler Uchod | Gweler Uchod |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>*e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith/cymuned* | Gweler Uchod | Gweler Uchod | Gweler Uchod |

| Gofyniad | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? *e.e y CSCA, TAN20, CDLl, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion* |
|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** *e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr* | Gweler Uchod | Gweler Uchod | Gweler Uchod |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** | Gweler Uchod | Gweler Uchod | Gweler Uchod |

| **7a. Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |
|---|
| Bydd yn rhaid i ni flaenoriaethu'r hyfforddiant y mae'n rhaid i ni ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth a chanolbwyntio'r hyfforddiant hwnnw ar staff rheng flaen yn y lle cyntaf.<br><br>Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddarparu'r hyfforddiant mwyaf cost-effeithiol a byddwn yn gweithio ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, CLlLC a phartneriaid awdurdodau lleol, i sicrhau ein bod yn bodloni ein gofynion cyfreithiol. |

DRAFT

## 8. Data a Gwybodaeth

*(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio gwaith datblygu'r cynnig? Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid a/neu adborth defnyddwyr gwasanaeth eraill, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)*

| **Data/tystiolaeth**<br>*(Rhowch ddolen i'r adroddiad os yw'n briodol)* | **Canfyddiadau perthnasol allweddol** | **Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?** |
|---|---|---|
| Yn y 3 blynedd diwethaf nid ydym wedi gwario'r dyraniad llawn o'r gyllideb hyfforddi, er bod llai na £1000 ar ôl ar gyfer 2022-2023.<br><br>Byddwn yn edrych ar ffyrdd cost-effeithiol o gyflwyno hyfforddiant am faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a'r Gymraeg drwy flaenoriaethu cyfleoedd hyfforddi i staff rheng flaen yn y lle cyntaf.<br><br>Ceisir data / tystiolaeth bellach fel rhan o ymarfer ymgynghori cyhoeddus y Cynigion Arbedion y Gyllideb a chaiff yr asesaid effaith ei ddiweddaru maes o law. | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. |

| **A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi?** *Gellir cynnwys manylion gweithgarwch ymgynghori pellach yn Adran 9.* |
|---|
| Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. |

DRAFT

## 9. Ymgynghori

*(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed os nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gall pobl ddisgwyl, yn ddilys ddigon, y cynhelir ymgynghoriad. Os penderfynwyd bod angen cynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid dilyn Egwyddorion Gunning. Ystyriwch y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu. Noder ei bod yn bosibl y bydd angen diweddaru hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac er mwyn atgyfnerthu'r asesiad.)*

| **Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgyngoriadau diweddar neu arfaethedig gan roi sylw arbennig i ddangos tystiolaeth bod Egwyddorion Gunning wedi'u dilyn.** |
|---|
| Ceisir safbwyntiau fel rhan o ymarfer ymgynghori cyhoeddus y Cynigion Arbedion y Gyllideb a chaiff yr asesiad effaith ei ddiweddaru maes o law. |

## *10. Monitro ac Adolygu*

| | |
|---|---|
| **Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith ac effaith y cynnig eu monitro, gan gynnwys rhoi unrhyw ddiwygiadau ar waith?** | Bydd dyraniad y gyllideb hyfforddi yn cael ei fonitro'n barhaus a bydd cyfleoedd hyfforddi ar gael i staff rheng flaen yn y lle cyntaf, a sicrhau bod y gwariant yn aros o fewn y gyllideb. |
| **Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer y gwaith monitro?** | Bydd dyraniad y gyllideb hyfforddi yn cael ei fonitro'n barhaus a bydd cyfleoedd hyfforddi ar gael i staff rheng flaen yn y lle cyntaf, a sicrhau bod y gwariant yn aros o fewn y gyllideb. |
| **Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?** | Byddwn yn edrych ar dueddiadau o ran pa hyfforddiant cydraddoldeb a'r Gymraeg sydd ei angen, ond bydd rhywfaint o hyn yn cael ei benderfynu gan gwynion neu o ganlyniad i unrhyw ymyriadau y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn y dyfodol, Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, neu Ganlyniadau Tribiwnlys sydd wedyn yn nodi anghenion hyfforddi. |
| **Pryd y disgwylir i'r cynnig gael ei adolygu?** | Bwriedir gweithredu'r cynnig yn llawn o 1 Ebrill 2024 |
| **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd hyn yn digwydd?** | Bwriedir gweithredu'r cynnig yn llawn o 1 Ebrill 2024 |

## 11. Argymhelliad a Rheswm/Rhesymau

| | |
|---|---|
| ☐ | Rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw ddiwygiadau |
| X | Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a nodwyd |
| ☐ | Gwrthod y cynnig oherwydd ei effaith anghymesur ar gydraddoldeb, tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol |

**A ydych wedi cysylltu â'r swyddogion perthnasol er mwyn cael cyngor ac arweiniad?** **Ydw X** **Nac ydw ☐**

## 12. Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad

*(Isod, rhowch grynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig. Dylech gynnwys y crynodeb hwn yn yr adran "Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig" yn Nhempled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylech gyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â chynnig yr Adroddiad).*

Y cynnig yw gweithredu gostyngiad o 20% i'r Gyllideb Hyfforddiant Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae hyn yn cyfateb i £3647 yn llai i'w wario ar hyfforddiant yn y flwyddyn ariannol i ddod.

Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb a'r Gymraeg i staff yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Gallai llai o sgiliau a gwybodaeth am gydraddoldeb a gofynion y Gymraeg olygu bod y Cyngor yn agored i heriau cyfreithiol ac ariannol.

Mae'n anochel y bydd llai o hyfforddiant yn cael ei ddarparu gyda llai o arian hyfforddi ar gael. Fodd bynnag, er mwyn rheoli'r gostyngiad, byddwn yn blaenoriaethu'r hyfforddiant y mae'n rhaid inni ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth a chanolbwyntio'r hyfforddiant hwnnw i staff rheng flaen yn y lle cyntaf. Bydd y gyllideb hyfforddi yn cael ei monitro'n barhaus, gan sicrhau bod y gwariant yn aros o fewn y gyllideb. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddarparu'r hyfforddiant mwyaf cost-effeithiol a byddwn yn gweithio ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, CLlLC a phartneriaid awdurdodau lleol, i sicrhau ein bod yn bodloni ein gofynion cyfreithiol.

## 13. Rheoli Fersiynau

*(Dylech ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad Effaith Integredig wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu llywio'r cynnig. Bydd yr adran 'Rheoli Fersiynau' yn gweithredu fel trywydd archwilio er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi datblygu dros amser)*

| Rhif y fersiwn | Awdur | Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad | Dyddiad Diwygio |
|---|---|---|---|
| 1 | Anwen Cullinane | Drafft 1 | 10/01/2024 |
| | | | |
| | | | |

### *Awdur yr Asesiad Effaith Integredig*

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Anwen Cullinane** |
| **Teitl Swydd:** | **Uwch Swyddog Polisi – Cydarddoldeb a'r Gymraeg** |
| **Dyddiad:** | **10/01/2024** |

### *Cymeradwyaeth gan Bennaeth Gwasanaeth*

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Sue Richards** |
| **Teitl Swydd:** | **Pennaeth Trawsffurfio** |
| **Dyddiad:** | **10/01/2024** |
| **Llofnod:** | **S Richards** |

DRAFT